Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyllideb Cymru 2022–2025




## Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwario'ch arian?


- Mae gan Gymru ei llywodraeth ei hun sy'n penderfynu sut y bydd yn gwario eich arian bob blwyddyn er mwyn gwella bywydau pobl.
- Mae'r Gweinidog Cyllid, Rebecca Evans, yn nodi'r penderfyniadau hyn yn y Gyllideb.
- Bydd yr arian sy'n cael ei wario yng Nghymru yn cael ei godi mewn trethi gan bobl a busnesau. Mae gennym reolau ynghylch sut y gallwn wario arian.
- Mae rhai o'r trethi hyn yn cael eu codi gan Lywodraeth Cymru. Daw 18c o bob £1 rydym yn ei wario yng Nghymru o drethi Cymreig.
- Bydd y trethi eraill yn cael eu codi gan Lywodraeth y DU ac maent yn berthnasol i'r DU gyfan, gan gynnwys Cymru.
- Am y tro cyntaf ers 2017 gallwn ddarparu arian ar gyfer y 3 blynedd nesaf ar draws ein cyllideb gyfan. Rydym yn cynllunio i wario dros £60 biliwn hyd at 2024-25.
- Rhwng mis Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 rydym yn cynllunio i wario bron i £22 biliwn.
- Defnyddir yr arian hwn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru ac ymateb i faterion pwysig fel newid hinsawdd.

# Sut rydym yn bwriadu gwario'r arian ar gyfer Cymru dros y 3 blynedd nesaf?

## Cyllid refeniw ychwanegol




## Cyfanswm y cyllid cyfalaf




# Mae Cyfalaf a Refeniw yn eiriau y byddwch yn eu clywed wrth inni sôn am Gyllideb Llywodraeth Cymru

Mae cyllid 'refeniw' yn arian y gallwn ei ddefnyddio i wario ar bethau fel rhedeg ysgolion ac ysbytai, neu helpu busnesau ac elusennau sy'n helpu pobl neu'n edrych ar ôl ein hamgylchedd.

Mae arian 'cyfalaf' yn arian y gallwn ei ddefnyddio i wario ar bethau fel adeiladau, tai, ffyrdd, prosiectau ynni fel tyrbinau gwynt, ysbytai ac ysgolion newydd.

# Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cyllid refeniw ychwanegol – **£1.5 biliwn**
## Cyfanswm y cyllid cyfalaf – **£1.1 biliwn**

**Talu am yr holl feddygon, nyrsys a deintyddion sy'n gofalu amdanom, yn ogystal â gwella ein hysbytai, meddyginiaethau a ffyrdd eraill y gallwn gadw'n iach.**

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar bob un ohonom. Rydym yn gwerthfawrogi'r bobl hynny sy'n gweithio yn ein hysbytai i drin pobl a'n helpu i gadw'n iach a gofalu amdanom. Rydym am sicrhau ein bod yn parhau i ofalu am y bobl sy'n gwneud hyn drwy wario arian i'w diogelu.

Mae ychydig dros hanner y Gyllideb yn cael ei wario ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda'r rhan fwyaf o'r arian ychwanegol y gallwn ei wario o ddydd i ddydd yn mynd i'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG). Bydd yr arian hwn yn diogelu ein GIG, er mwyn iddo barhau i helpu pawb yng Nghymru os byddant yn mynd yn sâl, ac i gefnogi ein hadferiad o'r pandemig. Rydym hefyd yn gwario arian ychwanegol i helpu i wella'r ffordd y mae gofal cymdeithasol yn gweithio yng Nghymru. Rydym am sicrhau bod y bobl sy'n gofalu am eraill fel rhan o'u gwaith hefyd yn derbyn gofal eu hunain mewn gyrfa sy'n deg ac yn rhoi boddhad.

Mae'n bwysig inni fod ein meddyliau'n iach, yn ogystal â'n cyrff, ac felly rydym yn buddsoddi arian ychwanegol i flaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant.

Bydd ein buddsoddiad mewn gwariant cyfalaf yn sicrhau bod ein hadferiad yn cael ei gefnogi gan y cyfleusterau gorau posibl yn ein GIG. Mae hyn yn cynnwys ein hysbytai a'n meddygfeydd yn ogystal â'r dechnoleg ddigidol sydd ei hangen arnom.

# Cyllid a Llywodraeth Leol

## Cyllid refeniw ychwanegol – **£800 miliwn***
## Cyfanswm y cyllid cyfalaf – **£560 miliwn**

**Arian i awdurdodau lleol i dalu am ysgolion, y rhai sy'n gofalu am bobl eraill, yn ifanc ac yn hen, ac i wneud llawer o bethau eraill sy'n bwysig iawn i'r ardaloedd yr ydym yn byw ynddynt.**

Rydym yn darparu cymaint o arian ag y gallwn i helpu awdurdodau lleol i wneud pethau sy'n wirioneddol bwysig yn yr ardaloedd lle mae pobl yn byw.

Bydd awdurdodau lleol yn cael mwy o arian y flwyddyn nesaf i sicrhau bod gennym ysgolion ac athrawon, pobl i ofalu am eraill pan fydd angen cymorth arnynt, ac arian i dalu am y pethau y mae pobl yn eu defnyddio yn eu hardaloedd lleol, fel llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a pharciau.

** Mae'r swm hwn yn cynnwys £ ychwanegol o ganlyniad i ardrethi annomestig. Mae hon yn dreth a gesglir gan fusnesau yn eich ardal chi ac ar draws Cymru. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r arian i wario ar wasanaethau pwysig yn eich cymuned.*

# Addysg a’r iaith Gymraeg

## Cyllid refeniw ychwanegol – **£280 miliwn**
## Cyfanswm y cyllid cyfalaf – **£1 biliwn**

**Sicrhau bod pawb yn gallu dysgu'r pethau angenrheidiol i’w helpu mewn bywyd ac i ddod o hyd i swydd, ni waeth o ble maent yn dod.**

Gwyddom fod y feirws wedi effeithio ar sut y mae plant a phobl ifanc yn dysgu, p'un a ydynt mewn ysgolion, colegau neu brifysgolion yng Nghymru.

Bydd y Gyllideb hon yn gwario arian ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i sicrhau bod addysg yng Nghymru ar gael i bawb a'n bod yn parhau i wella'r ffordd yr ydym yn ei chyflawni.

Rydym yn gwario mwy i wneud yn siŵr bod plant ysgol yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt i 'ddal i fyny' ar eu haddysg. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma ar ein Cwricwlwm newydd cyffrous yng Nghymru, sef yr wybodaeth y mae athrawon yn ei defnyddio i addysgu’r sgiliau angenrheidiol ar gyfer bywyd a gwaith.

Byddwn yn sicrhau bod addysg yn deg i bawb, i gefnogi'r rhai sydd ei hangen fwyaf. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys costau 'bob dydd' fel gwisg ysgol, offer ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol.

# Economi

## Cyllid refeniw ychwanegol – **£80 miliwn**
## Cyfanswm y cyllid cyfalaf – **£390 miliwn**

**Sut rydym yn helpu pobl i wella eu sgiliau a chael swyddi.**

Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl i ehangu eu sgiliau a chyflawni eu potensial. Rydym am wneud hyn mewn ffordd sy'n deg ac yn gwella cyfleoedd bywyd pawb.

Byddwn yn buddsoddi dros y tair blynedd nesaf i gefnogi cynlluniau fel ein ‘Gwarant i Bobl Ifanc’ – gan sicrhau bod pawb rhwng 16 a 24 oed yn gallu cael cymorth sy’n gysylltiedig â gwaith, addysg, hyfforddiant neu ddod yn hunangyflogedig. Hefyd, ein ‘Cyfrifon Dysgu Personol’, a fydd yn helpu pobl i feithrin sgiliau newydd i wella eu cyfleoedd.

**Sut rydym yn gwerthfawrogi ac yn dathlu ein treftadaeth a'n diwylliant cyfoethog.**

Rydym am weld Cymru gryfach ac rydym yn deall cymaint y gall ein diwylliant, ein hiaith, ein twristiaeth a'n chwaraeon gael effaith gadarnhaol ar sut rydym yn teimlo, yn ogystal â'n hiechyd meddwl. Rydym yn buddsoddi i helpu i gefnogi adferiad o'r pandemig mewn meysydd penodol ac i wella'r ffordd rydym yn cael mynediad at weithgareddau yn ein cymunedau ac yn cymryd rhan ynddynt.

Rydym hefyd yn buddsoddi i fwrw ymlaen tuag at gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a’r celfyddydau i ffynnu.

# Newid Hinsawdd

## Cyllid refeniw ychwanegol – **£200 miliwn**
## Cyfanswm y cyllid cyfalaf – **£4.8 biliwn**

**Sut y byddwn yn chwarae ein rhan i sicrhau ein bod yn wynebu dyfodol gwyrddach.**

Fel byd, rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd a natur sy'n gofyn am ymateb brys.

Eleni, byddwn yn nodi sut rydym yn bwriadu gwario ein harian dros y deng mlynedd nesaf i fuddsoddi mewn seilwaith – mae hyn yn cynnwys adeiladau fel ysgolion ac ysbytai, a sut rydym yn teithio, megis trenau a thraciau rheilffordd. Rydym yn gwneud hyn ar yr un pryd ag y byddwn yn cyhoeddi ein Cyllideb i ddangos sut y gall ffocysu’r arian a wariwn yn y tymor hir ein helpu i sicrhau economi ddi-garbon yn y dyfodol, a gwella bywydau pobl yng Nghymru.

Rhan bwysig iawn o'r cynllun hwn yw canolbwyntio ein harian ar y ffordd orau o ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng sut rydym yn buddsoddi yng Nghymru a sut rydym yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

Bydd hyn yn cynnwys gwario arian ar adeiladu ysgolion newydd a gwella'r rhai sydd gennym eisoes fel y gallwn gyrraedd ein targedau sero net. Byddwn hefyd yn gwario i wella ein hysbytai a'n meddygfeydd er mwyn gallu cael gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Bydd prosiectau eraill yn canolbwyntio ar ein hamgylchedd naturiol, er enghraifft rydym yn gwario arian i greu Coedwig Genedlaethol o’r gogledd i’r de.

Byddwn yn parhau i wario i gynyddu 'teithio llesol' – mae hyn yn golygu gwneud teithiau drwy fod yn gorfforol egnïol, fel cerdded neu feicio. Gall gwneud mwy o hyn ein helpu i fod yn fwy iach a hapus. Gall hefyd helpu i wneud yr aer rydym yn ei anadlu'n lanach os oes llai o geir ar y ffordd.

**Y ffordd yr ydym yn teithio.**

Rydym yn gwario llawer o arian i helpu i ddiogelu'r ffordd yr ydym yn teithio, yn enwedig bysiau a threnau. Mae angen i lawer ohonom fynd i wahanol leoedd, fel i’r ysgol ac i’r gwaith, neu i ymweld â lleoedd newydd.

Rydym am fuddsoddi arian mewn ffyrdd sy'n cryfhau ac yn diogelu'r Gymru yr ydym yn byw ynddi. Bydd yr arian hwn yn ein galluogi i wella ein gwasanaethau trenau a bysiau a bydd yn cynnwys 'metro' newydd ar gyfer De Cymru.

# Materion Gwledig

## Cyllid refeniw ychwanegol – **£100 miliwn**
## Cyfanswm y cyllid cyfalaf – **£110 miliwn**

**Sut rydym yn cefnogi ein ffermwyr.**

Mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda'n ffermwyr i sicrhau y gall y tir yng Nghymru gefnogi a chryfhau ffermio yn ogystal â diogelu’r natur o’n cwmpas. Rydym hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw ffermydd teuluol yng Nghymru.

Bydd y cyllid hwn yn creu ffyrdd newydd o gefnogi ffermio. Byddwn yn helpu i wella systemau TG ac yn canolbwyntio o’r newydd ar sut rydym yn cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd. Credwn, drwy wneud hyn, y byddwn yn helpu i wneud ein cymunedau'n gryfach ac yn darparu mwy o gyfleoedd i gydweithio o fewn y cymunedau hynny.

## Cyfiawnder Cymdeithasol

### Cyllid refeniw ychwanegol – **£40 miliwn**
### Cyfanswm y cyllid cyfalaf – **£50 miliwn**

**Sicrhau bod cymorth wedi'i leoli lle y mae ei angen fwyaf.**

Yn ein cenhadaeth i greu cymdeithas fwy cyfartal, rydym wedi addo rhoi cynnig ar rywbeth newydd a gwahanol yng Nghymru drwy wario i gyflwyno **Cynllun Incwm Sylfaenol** newydd.

Rydym hefyd am ddathlu amrywiaeth a chydnabod y lleisiau gwerthfawr yng Nghymru, felly rydym yn buddsoddi mewn cyflawni canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Tasglu Hawliau Anabledd, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r holl gynlluniau eraill sydd gennym ar waith i sicrhau bod y lleisiau hyn yn cael eu clywed.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

### Cyllid refeniw ychwanegol – **£40 miliwn**
### Cyfanswm y cyllid cyfalaf – **£30 miliwn**

**Gwneud Llywodraeth Cymru yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.**

Ochr yn ochr â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae angen inni sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn barod ar gyfer y dyfodol. Mae arian yn talu am gostau staff, TG ac adeiladau Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'n dyfodol, mae angen inni ddysgu o'r gorffennol ac rydym yn gwario arian i sicrhau y gallwn ddysgu gwersi pwysig am sut rydym wedi ymateb i'r pandemig.

Bydd arian hefyd yn cael ei wario i ddeall mwy am yr hyn sydd ei angen ar gyfer dyfodol Cymru. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn cyfrannu at weddill y DU a sut y rhennir pŵer ac adnoddau rhyngom. Mae'r rhain yn gwestiynau pwysig i'w gofyn, yn enwedig nawr, gan ein bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ac yn parhau i ymateb i'r pandemig. Mae angen inni sicrhau ein bod yn gwneud y peth cywir ar gyfer y bobl sy'n byw yng Nghymru.

### I gael gwybod rhagor am sut rydyn ni'n gwario'r arian hwn ewch i'n gwefan

**https://llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru** lle mae pob maes wedi'i drefnu yn ôl pwnc.

Rydyn ni am wybod eich barn chi am sut mae'r arian rydyn ni'n ei gael yng Nghymru yn cael ei wario. Ysgrifennwch at y Gweinidog sy'n gyfrifol am rywbeth y mae gennych chi ddiddordeb ynddo i ddweud sut rydych chi'n meddwl y dylid gwario'r arian.

Dyma ddolen i'r dudalen sy'n dweud pa gyfrifoldebau sydd gan bob Gweinidog. Cliciwch ar eu henwau i gael gwybod mwy:

**https://llyw.cymru/aelodaur-cabinet-gweinidogion**

Dyma ddolen i gyfeiriadau e-bost y Gweinidogion:

**https://llyw.cymru/cysylltu-a-gweinidogion-llywodraeth-cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 Llywodraeth Cymru WG44133